## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (LLANBADARN FAWR, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 wrth Ffordd Llanbadarn sy'n ymestyn o'i chyffordd wrth ochr ddwyreiniol y fân gylchfan sy'n arwain at Riw Briallu hyd at bwynt 1100 metr i'r dwyrain i'w chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin y bydd cau'r ffordd yn effeithio arnynt fydd teithio i gyfeiriad y de a'r dwyrain ar hyd yr A44 i Gylchfan Gelli Angharad, yna mynd i gyfeiriad y gogledd yn gyffredinol ar hyd yr A4159 i ymuno â'r A487 wrth ei chyffordd â Bow Street, parhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd yr A487 i Ffordd Penglais hyd at Coopers Corner i ailymuno â'r A44 ar Ffordd Llanbadarn. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de-ddwyrain y bydd cau'r ffordd yn effeithio arnynt.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 11 Mawrth 2024 hyd 21 Mawrth 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A44 TRUNK ROAD (LLANBADARN FAWR, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A44 trunk road at Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A44 trunk road at Llanbadarn Road that extends from its junction at the eastern side of the mini roundabout leading to Primrose Hill to a point 1100 metres east to its junction with the unclassified road leading to Glanyrafon Industrial Estate.

The alternative route for north-westbound vehicles affected by the closure will be to travel in a south and easterly direction along the A44 to Lovesgrove Roundabout, then proceed in a general northerly direction along the A4159 to join the A487 at its junction with Bow Street, continue in a south-westerly direction along the A487 onto Penglais Road until Coopers Corner to re-join the A44 on Llanbadarn Road. Vice versa for south-eastbound vehicles affected by the closure.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate intermittently overnight (19:00 hours to 06:00 hours) from 11 March 2024 until 21 March 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government